Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL, DOGFENNU

# Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd: 2022 (crynodeb)

Mae gan yr Arolwg Sbotolau rôl unigryw wrth fonitro ac asesu iechyd parhaus y sector amgueddfeydd yng Nghymru. Dyma'r iteriad diweddaraf o'r arolwg ers pandemig COVID-19.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 12 Medi 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 12 Medi 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cyflwyniad a chefndir

## Methodoleg

## Canfyddiadau

## Troednodiadau

## Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyflwyniad a chefndir

Mae gan yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd rôl unigryw wrth fonitro a mynd i'r afael ag iechyd parhaus y sector amgueddfa yng Nghymru. Yn hanesyddol, mae Sbotolau wedi darparu data hanfodol i hysbysu cynllunio, ariannu, a phenderfyniadau strategol yng nghyd-destun amgueddfeydd ers ei sefydlu yn 2006. Mae'r adroddiad yn tynnu ar ddata cymharydd o gylchoedd arolwg blaenorol, yn benodol data a gasglwyd yn 2019 [troednodyn 1]. Mae'r ymchwil hwn yn cynrychioli cyfle i gynyddu cyrhaeddiad ac effaith y data a gynhyrchir ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ar gyfer y sector amgueddfeydd yng Nghymru.

Comisiynwyd Emma Chaplin Gwasanaethau Treftadaeth am Amgueddfeydd gan yr Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru i gynnal Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022 ac i gynnig cefnogaeth i'r sector amgueddfeydd cyn ac yn ystod y gwaith maes. Yn ychwanegol, mae cyfres o sesiynau lledaenu ac ymgysylltu gyda'r sector amgueddfeydd wedi'u cynllunio i gyfathrebu canfyddiadau allweddol.

## Methodoleg

Mae'r Arolwg Sbotolau yn casglu data ansoddol a meintiol ac mae'r cwestiynau yn cynnig data nominal, trefnol a chyfwng.

Anfonwyd holiadur arolwg llawn at yr holl amgueddfeydd achrededig yng Nghymru. Gwnaeth hyn roi maint sampl posib mwyaf o 111 o amgueddfeydd. Derbyniwyd saith deg saith o ymatebion yn cynrychioli 69% o gyfradd ddychwelyd.

Roedd yr arolwg yn agored am bedair wythnos o'r 24 Chwefror 2023. Rhoddwyd estyniadau unigol hyd at wythnos gyntaf Ebrill i sicrhau bod ymatebion a oedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn weddill yn cael eu derbyn. Cyflwynwyd dau weithdy cymorth dwyieithog rhithiol yn ystod cyfnod yr arolwg. Rhoddwyd cymorth ychwanegol trwy flwchpost e-bost pwrpasol.

# Canfyddiadau

Mae'r holl ganfyddiadau yn perthyn i'r ymatebion gan y 77 amgueddfa a gwblhaodd yr arolwg Sbotolau 2022.

## Ymwelwyr â'r amgueddfeydd

Yn 2022, cafwyd 3,011,763 o ymwelwyr â'r amgueddfeydd yng Nghymru a gwblhaodd yr arolwg. Mae hyn i'w gymharu â 4,333,520 o ymweliadau yn 2019. Mae lefelau ymwelwyr amgueddfeydd wedi adfer i 69% o lefelau cyn Covid-19. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, amgueddfeydd annibynnol a phrifysgol ar dros 80% o adferiad.

## Trosolwg ariannol

Dengys cyllidebau gweithredu cyfartalog ar gyfer amgueddfeydd yn yr arolwg gyllidebau stond ar y cyfan rhwng 2018 a 2021 ar gyfer amgueddfeydd annibynnol ac awdurdod lleol. Mae eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dangos cwymp ar gyfer y cyfnod hwn, ond gallai hyn fod yn gysylltiedig â gweithgareddau penodol i safle. Mae amgueddfeydd prifysgol hefyd yn dangos cwymp mewn cyllidebau gweithredu cyfartalog.

Mae saith deg pump y cant o'r amgueddfeydd a gwblhaodd Sbotolau 2022 yn erbyn cefnogaeth gan eu hawdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth refeniw uniongyrchol ar gyfer amgueddfeydd a redir fel gwasanaeth awdurdod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

lleol, cefnogaeth ariannol trwy ryddhad ardrethi ac ariannu refeniw rheolaidd. Gallai'r gefnogaeth fod mewn nwyddau hefyd trwy feddiannaeth adeiladau am ddim neu am gost isel, gwasanaethau cynnal a chadw adeiladau a chefnogaeth fentora o dan delerau y cynllun achredu [troednodyn 2]. O'r rheiny oedd yn derbyn cymorth, adroddodd 15% gynnydd mewn lefelau cymorth, gwelodd 33% ostyngiad mewn cymorth a dywedodd 52% fod y lefelau cymorth wedi aros yr un fath.

Mae dros 70% o amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg wedi dod ag ariannu grant yn llwyddiannus i'w safleoedd o ffynonellau gan gynnwys llywodraeth, cyllidwyr sector, cyrff dosbarthu grantiau mawr ac elusennau arbenigol.

Adroddodd saith deg y cant o amgueddfeydd yn yr arolwg am godi tâl am arddangosfeydd neu wasanaethau penodol y tu hwnt i godi tâl mynediad cyffredinol. Adroddwyd am hyn gan amgueddfeydd o bob math o lywodraethu gan gynnwys y rheiny sy'n codi tâl a'r rhai nad ydynt yn codi tâl am fynediad. Roedd enghreifftiau eraill o ffynonellau incwm yn cynnwys llogi ystafell, teithiau a gweithdai, trwyddedu delweddau, ffilmio, ymchwilio i wrthrychau ac addysgu ffurfiol.

## Gweithlu amgueddfa

Yn 2022, roedd y 77 amgueddfa yng Nghymru a gwblhaodd yr arolwg yn cyflogi 1,414 o staff (893 staff cyfwerth ag amser llawn).

O'r 893 o staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd mae 60% (538 cyfwerth ag amser llawn) yn cael eu cyflogi ar safleoedd cenedlaethol a 25% (226 cyfwerth ag amser llawn) mewn amgueddfeydd awdurdod lleol ac annibynnol.

Mae staffio Cyfwerth ag Amser Llawn ar draws y sector amgueddfa yn parhau yn weddol sefydlog yn gyffredinol er bod amgueddfeydd annibynnol a phrifysgol wedi gweld cynnydd o 19 a 32 pwynt canran yn y drefn honno mewn staffio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rhwng arolygon Sbotolau 2019 a 2022.

Yn 2022 roedd 1,893 o wirfoddolwyr yn cyfrannu 180,137 awr o gefnogaeth gwirfoddol. Mae cwymp wedi bod yn nifer cyffredinol y gwirfoddolwyr yn sector amgueddfeydd Cymru ers arolwg 2019 o'i gymharu â staff cyflogedig. Dangosir hyn yng nghanran y gwirfoddolwyr sy'n rhan o'r sector ar draws y ddau arolwg, gyda chwymp cyffredinol o 32 pwynt canran rhwng arolygon 2019 a 2022. Dim ond amgueddfeydd prifysgol sydd wedi cynyddu eu niferoedd gwirfoddolwyr.

## Casgliadau

Mae gan amgueddfeydd a ymatebodd i Sbotolau 2022 dros 6,300,000 o wrthrychau yn eu casgliadau. Mae ymron i 80% ohonynt yn cael eu cadw mewn amgueddfeydd cenedlaethol.

Mae data Sbotolau 2022 yn cadarnhau bod ymron i 90% o amgueddfeydd yng Nghymru yn debygol o fod â storfeydd gorlawn mewn llai na 5 mlynedd. Adroddodd wyth deg wyth y cant o ymatebwyr amgueddfa eu bod eisoes yn orlawn neu fe fyddant mewn llai na 5 mlynedd. Mae'r ffigwr yn union yr un fath (88%) i ganlyniadau Sbotolau 2019, er bod y dadansoddiad ychydig yn wahanol (61% eisoes yn orlawn yn 2019 yn erbyn 57% yn 2023).

Mae ymron i bob amgueddfa yn cynnig rhyw fynediad ar-lein i'w casgliadau. Mae dros hanner amgueddfeydd yn defnyddio gwefan Casgliad y Bobl Cymru [troednodyn 3] i ddarparu mynediad digidol.

## Dysgu

Yn 2022 croesawodd amgueddfeydd a oedd yn llenwi'r arolwg 319,664 o gyfranogwyr dysgu. Roedd 5,463 o sesiynau dysgu ffurfiol gyda 160,123 o gyfranogwyr a 2,165 o sesiynau dysgu anffurfiol gyda 159,541 o gyfranogwyr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Nid yw cynulleidfaoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol wedi adfer i'w lefelau cyn-bandemig hyd yma. Mae adfer yn mynd rhagddo ond nid yw wedi'i gwblhau eto.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rhoddodd saith deg naw y cant o amgueddfeydd ddarpariaeth wedi'i thargedu rhwng 2019 a 2022 i gynulleidfaoedd gyda nodweddion gwarchodedig. Roedd gan 26% ddarpariaeth wedi'i thargedu yn ymwneud ag anabledd, 25% ar gyfeiriadedd rhywiol a 23% ar hil ac ethnigrwydd. Yn ychwanegol, rhoddodd 43% o amgueddfeydd ddarpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer pobl â dementia. Dywedodd un ar bymtheg o'r 77 amgueddfa a ymatebodd nad oeddent wedi darparu unrhyw arddangosfeydd, digwyddiadau na gweithgareddau oedd yn targedu cymunedau penodol ers arolwg 2019.

Mae dau ar bymtheg y cant o'r amgueddfeydd a gwblhaodd yr arolwg wedi ymgysylltu â phob un o'r pum gweithgaredd blaenoriaeth a restrir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol.

Mae tri deg pedwar y cant o staff amgueddfeydd yn siaradwyr Cymraeg ochr yn ochr â phedwar ar bymtheg y cant o ymddiriedolwyr a deunaw y cant o wirfoddolwyr.

## Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r ymatebion yn awgrymu bod 13% o amgueddfeydd mewn risg ganolig neu'n uwch o lifogydd o afonydd, tra bod bron i 17% mewn risg ganolig neu'n uwch o lifogydd o ddŵr wyneb neu gyrsiau dŵr bach.

Ni adroddodd unrhyw ymatebwyr eu bod wedi defnyddio offeryn cyfrifiannell carbon Julie Bicycle.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Adfer wedi COVID-19

Adroddodd traean o'r amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg am aflonyddu yn y patrymau agor yn ystod 2022. Mae'r niferoedd ymwelwyr, ffigurau ymgysylltu mewn dysgu ffurfiol, ac ymatebion i 'Beth ydych chi'n ei weld fel yr heriau mwyaf i'ch amgueddfa yn ystod y ddwy flynedd nesaf?' yn awgrymu bod adferiad i'r sefydliadau ar ôl y pandemig ymhell o fod yn gyflawn nac yn ddiogel.

## Partneriaethau

Mae chwe deg pedwar y cant o amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol wedi defnyddio gwasanaethau a ddarparwyd gan Amgueddfa Cymru, gyda dros hanner o'r rheiny wedi defnyddio mwy nac un gwasanaeth. Benthyg gwrthrych, cyngor cadwraeth a chyngor casgliadau yw'r gwasanaethau a ddefnyddir yn fwyaf rheolaidd.

Adroddodd un ar hugain y cant o amgueddfeydd a lenwodd yr arolwg eu bod wedi cael gwahoddiad i gyflenwi data fel rhan o adrodd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys 9 amgueddfa Awdurdod Lleol (36%) a 7 o safleoedd amgueddfa genedlaethol (100%).

# Troednodiadau

[1] **Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020**

[2] **Cynllun Achredu Amgueddfeydd y DU (Arts Council England)**

[3] **Casgliad y Werin Cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Awduron: Emma Chaplin, Jane Henderson, Phil Parkes

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Emma Sullivan
Ebost:**cymral@llyw.cymru**

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 83/2023
ISBN digidol 978-1-83504-654-8

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.